Eitem Agenda Rhif 2

FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Mawrth, 12 Rhagfyr, 2006 am 2.00 p.m.

YN BRESENNOL

J. Hughes (Cadeirydd), D. Berry, K. Culhane, Cynghorydd M.Ll. Davies, G. Jones, E.L. Hart, C. Marshall, M.T. Parry, A. Pennant, G. Roberts, S. Roberts, P. Scarll, V. Walker Jones a R. Williams.

HEFYD YN BRESENNOL

A. Walls (Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Sir Ddinbych ac Ysgrifennydd y Fforwm), H T. Evans, P. Owen a D. Shiel (Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych), P. Mitchell (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), R. Hickey a D. Marshall (Gwasanaethau PROW) a C.I. Williams (Swyddog Gweinyddu).

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion Fforwm Mynediad Lleol Sir Ddinbych a gynhaliwyd dydd Mawrth, 11 Gorffennaf, 2006 er gwybodaeth.

Penderfynwyd – derbyn y Cofnodion.

3. SEMINAR CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY – ROY HICKEY (GWASANAETHAU HAWLIAU TRAMWY'R CYHOEDD)

Croesawodd y Cadeirydd Mr Roy Hickey a Ms Deborah Marshall, Ymgynghorwyr mewn Mynediad a Hawliau Tramwy'r Cyhoedd, i'r cyfarfod ac esboniodd eu bod wedi'u cyflogi i gynorthwyo gyda pharatoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Rhoddodd Ysgrifennydd y Fforwm amlinelliad o ofynion Adran 60 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, sy'n gofyn i Awdurdodau Lleol baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy erbyn Tachwedd 1af , 2007. Mae'r Cynllun i gynnwys dwy elfen, asesiad o'r Hawliau Tramwy Lleol a datganiad o'r camau mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu eu cymryd i reoli Hawliau Tramwy Lleol ac i sicrhau gwell rhwydwaith o Hawliau Tramwy Lleol. Cyflwynwyd amlinelliad i aelodau'r Fforwm o'r gwaith yr oedd hyn yn ei olygu, gan gynnwys asesu cyflwr presennol y Rhwydwaith, archwilio cofnodion y Map Diffiniol, canfod dyheadau defnyddwyr y Rhwydwaith - y gymuned a thirfeddianwyr - ac archwilio'n fanwl yr holl gyhoeddiadau a strategaethau perthnasol.

Cyfeiriodd at y diffyg ariannu ar y dechrau, oedd wedi'i ddatrys bellach, ac amlygodd y problemau a oedd yn codi ar hyn o bryd, o ran cyfyngiadau amser a chyflawni'r terfynau amser penodedig. Hysbyswyd yr aelodau - er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf i baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, cyflogwyd Ymgynghorwyr a chynhaliwyd trafodaethau gyda darparwyr meddalwedd cyfrifiadurol, gan ystyried ceisio cymorth wrth hel gwybodaeth am gyflwr y rhwydwaith Hawliau Tramwy'r Cyhoedd o fewn yr Awdurdod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, rhoddodd Ysgrifennydd y Fforwm fanylion o'r graddfeydd amser a ddisgwyliwyd; cadarnhaodd ei bod yn annhebygol y gellid cyflawni Cynllun

gorffenedig erbyn y dyddiad cwblhau penodedig. Fodd bynnag, eglurodd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi awgrymu na fyddai llithriad bychan yn y graddfeydd amser penodedig yn annerbyniol.

Gyda chymorth cyflwyniad Powerpoint, rhoddodd Mr R. Hickey wybodaeth fanwl i aelodau'r Fforwm am y meysydd canlynol a phynciau perthnasol i gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy:-

Pa mor aml fyddwch chi'n defnyddio Hawliau Tramwy
Ble mae'r llwybrau a'r traciau y byddwch yn eu defnyddio
Beth yw'r defnydd a wneir o'r llwybrau a'r traciau
Blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
I ba raddau yr ydych yn credu neu'n gwrthod credu'r datganiadau a wnaed
Yr ymatebion a dderbyniwyd fesul cod post

Cyfeiriwyd at yr holiadur a gyhoeddwyd ym mhapur newydd Llais y Sir, Sir Ddinbych yn Hydref, 2006 a oedd yn gofyn am farn a safbwyntiau'r darllenydd am Hawliau Tramwy yng nghefn gwlad. Defnyddir yr ymatebion a dderbyniwyd i gynorthwyo wrth baratoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy trwy chwilio am wybodaeth ar bynciau fel - faint o bobl sy'n mwynhau defnyddio Hawliau Tramwy, pa mor aml, ac i ba bwrpas. Cyhoeddwyd fersiwn fwy manwl o'r holiadur ond roedd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn siomedig ac, o ganlyniad i hyn, bellach gohiriwyd y dyddiad cau ar gyfer derbyn fersiwn estynedig yr holiadur wedi'i gwblhau. Esboniwyd y byddai angen o leiaf 100 ymateb i'r holiadur a chytunodd pob aelod o'r Fforwm i ddosbarthu 5 copi yn eu hardaloedd eu hunain, i'w cwblhau. Mewn ymateb i ofidiau a godwyd gan aelodau bod y cyhoedd wedi datgan anfodlonrwydd i roi enwau a chyfeiriadau wrth gwblhau'r holiaduron, esboniodd swyddogion mai'r rheswm dros ofyn am gynnwys enwau a chyfeiriadau oedd er mwyn eu cynnwys yn y raffl rad ond cadarnhawyd y byddai cynnwys cod post yn ddigonol i hynny.

Cytunodd aelodau â'r farn a fynegwyd gan y Cynghorydd M.Ll. Davies y byddai canlyniadau'r holiaduron yn cael eu cyhoeddi yn Llais y Sir, ynghyd â llun o enillydd y raffl.

Tynnodd Ysgrifennydd y Fforwm sylw at bwysigrwydd ceisio a chael barn pob person anabl, gan gynnwys y rhai ag anableddau corfforol a meddyliol, am eu gofynion a'u hanghenion hwy o ran y ddarpariaeth gwasanaeth.

Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Fforwm at bwysigrwydd cynnwys Cynghorau Cymuned lleol yn y broses o ymgynghori a chytunodd aelodau y dylai Ysgrifennydd y Fforwm ysgrifennu at bob Cyngor Cymuned gan eu gwahodd i enwebu cynrychiolydd i fynychu cyfarfod o'r Fforwm Mynediad Lleol i fynegi safbwyntiau eu Cynghorau am gynhyrchu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Cytunodd aelodau'r Fforwm hefyd â'r awgrymiadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Fforwm y dylid gofyn i'r Cynghorau Cymuned nodi ac enwi llwybrau yn eu hardaloedd, a thynnu sylw at unrhyw broblemau a gododd neu a oedd yn codi, gan ofyn am fanylion unrhyw ddiffygion.

Cytunodd Aelodau y dylid sefydlu'r chwe Grŵp canlynol y tu mewn i'r Fforwm Mynediad Lleol er mwyn cwmpasu'r 6 maes perthnasol i gydymffurfio â pholisïau'r Llywodraeth, â'r aelodaeth fel yr amlinellir isod:-

Cerdded – Mr R. Williams a Ms V. Walker Jones
Marchogaeth – Ms E. Hart, Ms J. Lord a Ms S. Roberts
Beicio– Mr C. Marshall
Twristiaeth Antur – Mr A. Walls (Ysgrifennydd y Fforwm)
Iechyd a Gallu – Ms K. Culhane
Budd Economaidd – Ms S. Roberts a Ms E. Hart

Cytunodd yr aelodau hefyd y dylai Ysgrifennydd y Fforwm gyfarfod gyda thirfeddiannwyr, ffermwyr a'u hundebau, i drafod pynciau sy'n berthnasol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac i

ganfod eu barn am baratoi'r Cynllun, a'i fformat wedyn.

Mewn ymateb i'r farn a fynegwyd gan Mr D. Berry am y pwysigrwydd bod Sir Ddinbych yn mabwysiadu agwedd proactif tuag at bolisi cynnal a chadw, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Fforwm y byddai'r pwnc hwn yn cael ei drafod yn y broses o baratoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Hysbysodd Ysgrifennydd y Fforwm aelodau'r Fforwm - yn dilyn yr ymchwil cychwynnol - y byddai cyfle arall i bawb roi sylwadau am y syniadau y gellid eu cynnwys yn y Cynllun Gwella .

Penderfynwyd:

(a) derbyn yr adroddiad.
(b) bod pob aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol i ddosbarthu 5 copi o'r holiadur i'w cwblhau yn eu hardaloedd eu hunain,.
(c) bod y Swyddog Hawliau Tramwy i ysgrifennu at bob Cyngor Cymuned a'u gwahodd i enwebu cynrychiolydd i fynychu cyfarfod o'r Fforwm Mynediad lleol i fynegi safbwyntiau eu Cynghorau am gynhyrchu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.
(d) sefydlu'r chwe Grŵp canlynol y tu mewn i'r Fforwm Mynediad Lleol er mwyn cwmpasu'r 6 maes perthnasol i gydymffurfio â pholisïau'r Llywodraeth, â'r aelodaeth fel yr amlinellir isod:-

- *Cerdded – Mr R. Williams and Ms V. Walker Jones*
- *Marchogaeth – Ms E. Hart, Ms J. Lord a Ms S. Roberts*
- *Beicio– Mr C. Marshall*
- *Twristiaeth Antur – Mr A. Walls (Ysgrifennydd y Fforwm)*
- *Iechyd a Gallu – Ms K. Culhane*
- *Budd Economaidd – Ms S. Roberts a Ms E. Hart*

(e) Ysgrifennydd y Fforwm i gyfarfod gyda thirfeddiannwyr, ffermwyr a'u hundebau nhw, i drafod pynciau perthnasol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac i ganfod eu barn am baratoi'r Cynllun a'i fformat wedyn.

4. <u>DEDDF HAWLIAU TRAMWY CEFN GWLAD 2000 - CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT DAN ADRAN 69 Y DDEDDF - YMGYNGHORIADAU LLCC/ CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU</u>

Roedd copi o lythyr oddi wrth Is-adran yr Amgylchedd - Cadwraeth a Rheoli Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ceisio sylwadau am gynnwys y canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar bynciau y dylid eu hystyried wrth awdurdodi adeiladu clwydi ar lwybrau troed a llwybrau ceffyl i gwrdd â gofynion pobl ag anawsterau symudedd; hefyd dosbarthwyd copïau o'r ddogfen "Trwy bob dull rhesymol, Mynediad Cynhwysol i'r Awyr Agored", gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Esboniodd Ysgrifennydd y Fforwm fod Adran 69 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf "CROW)" yn gwneud darpariaeth am gelfi, yn bennaf camfeydd a chlwydi ar draws llwybrau troed a llwybrau ceffyl, i fod yn fwy addas ar gyfer anghenion pobl ag anawsterau symudedd. Hysbysodd Aelodau'r Fforwm fod y Ddeddf hefyd yn cynnwys pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi canllawiau y bydd yn rhaid i'r Awdurdodau Lleol perthnasol eu hystyried wrth weithredu'r swyddogaethau hyn.

Cyfeiriodd at y ddogfen ymgynghori'n ymwneud â'r canllawiau statudol i'w cyhoeddi gan y Cynulliad dan Adran 69 Deddf CROW. Lluniwyd cynnwys y canllawiau statudol ar y cyd gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Asiantaeth Cefn Gwlad, Natural England. Esboniwyd bod yr Asiantaethau, cyn cyflwyno'u cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru a DEFRA, wedi dosbarthu'r drafft o'r canllawiau i rai budd-ddeiliaid arbennig er mwyn cael eu sylwadau.

Hysbyswyd aelodau'r Fforwm bod y canllawiau'n cyfeirio at ganllawiau perthnasol eraill ac, fel rhan o'r ymgynghori, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwahodd sylwadau ar gyhoeddiad

diweddar Cyngor Cefn Gwlad Cymru “Trwy bob dull rhesymol”.

Cynhwyswyd manylion y cwestiynau yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i gael ymateb iddynt yn y dogfennau ac a ddosbarthwyd gyda'r agenda. Cadarnhawyd bod cyfnod o wyth wythnos wedi'i ddynodi ar gyfer yr ymgynghori, a gwahoddwyd sylwadau erbyn 26 Ionawr, 2007. Hysbyswyd aelodau'r Fforwm y gellid anfon unrhyw farn neu sylwadau'n ysgrifenedig at Ysgrifennydd y Fforwm i'w cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Fforwm am ddrafft y canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar y pynciau y dylid eu hystyried wrth awdurdodi adeiladu clwydi ar lwybrau troed a llwybrau ceffyl i gwrdd â gofynion pobl ag anawsterau symudedd, cytunodd Ysgrifennydd y Fforwm i ymgynghori a chysylltu â grwpiau amaethyddol â diddordeb, fel tirfeddianwyr, ffermwyr a'r undebau amaethwyr perthnasol, i drafod unrhyw ofidiau neu broblemau am y Ddeddf, gan fod cyfeiriad arbennig at y math o strwythurau i'w defnyddio a'u hadeiladu, a phynciau diogelwch anifeiliaid byw.

Cyfeiriodd Mr D. Berry at dri o'i gyhoeddiadau diweddar am Fryniau Clwyd, Dyffryn Clwyd a Bro Ddyfrdwy a chadarnhaodd mai yn Nyffryn Clwyd yr oedd mwyafrif y problemau'n codi..

Penderfynwyd

(a) derbyn yr adroddiad.
(b) bod y Swyddog Hawliau Tramwy i ymgynghori a chysylltu â grwpiau amaethyddol â diddordeb, fel tirfeddianwyr, ffermwyr a'r undebau amaethwyr perthnasol, i drafod unrhyw ofidiau neu broblemau am y math o strwythurau i'w hadeiladu.

5. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - `MYNEDIAD Y CYHOEDD I GEFN GWLAD'

Ymhlith y papurau a ddosbarthwyd ar gyfer y cyfarfod, roedd copi o 'Mynediad y Cyhoedd i Gefn Gwlad', Swyddfa Archwilio Cymru, a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yn absenoldeb y Prif Swyddog Cefn Gwlad (Gwasanaethau Warden):-

Penderfynwyd - derbyn yr adroddiad.

6. ADRODDIAD UNED HAWLIAU TRAMWY - GWAITH CYNNAL A CHADW A GWAITH MAPIAU DIFFINIOL

Dosbarthwyd copiau o adroddiad y Fforwm Mynediad Lleol ar Hawliau Tramwy'r Cyhoedd a'r Adroddiad Mapiau Diffiniol i aelodau'r Fforwm yn ystod y cyfarfod.

Rhoddodd y Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad, T. Evans, grynodeb manwl i aelodau'r Fforwm o'r Adroddiad Mapiau Diffiniol. Roedd y crynodeb yn cynnwys y meysydd canlynol:-

(a) Baich Gwaith Cyffredinol – Hysbyswyd aelodau bod y gwaith yn parhau ar yr ôl-groniad o orchmynion cyfreithiol yn ogystal â cheisiadau newydd. Cadarnhawyd bod mapiau'n darlunio'r Hawliau Tramwy ym mhob cymuned yn cael eu paratoi ar gyfer pob Cyngor Cymuned unigol i amlygu eu blaenoriaethau wrth ddelio ag unrhyw bynciau Hawliau Tramwy; eglurwyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i hintegreiddio yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

(b) Cofrestri Hawliau Tramwy'r Cyhoedd - Hysbysodd y Swyddog Mynediad Cefn Gwlad Aelodau'r Fforwm fod y Tîm Hawliau Tramwy ar hyn o bryd yn mireinio gwybodaeth am y

Gofrestr Hawliau Tramwy'r Cyhoedd a ddisgwylir i fod ar-lein yn y Flwyddyn Newydd.

(c) Nifer y Ceisiadau ar hyn o bryd. Rhoddwyd y wybodaeth ganlynol i aelodau'r Fforwm am y nifer ceisiadau ar hyn o bryd:-

(a) Gorchmynion Addasu Map Diffiniol (Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad) – 27 o Geisiadau
(b) Gorchmynion Dargyfeirio Llwybr Troed (Deddf Priffyrdd) -16 o Geisiadau

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Fforwm, cadarnhaodd y Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad fod gorchmynion addasu newydd yn cael eu derbyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oedd y fenter Llwybrau Colledig wedi cael unrhyw effaith arwyddocaol. Eglurodd Ysgrifennydd y Fforwm fod tua 600 ymholiad wedi'u derbyn am y Map Diffiniol. Hysbysodd Aelodau'r Fforwm y byddai angen i swyddogion ymweld â phob safle unigol a thynnodd sylw at y problemau a allai godi o ganlyniad i'r broses hir o ddrafftio Gorchmynion, pan fyddai angen.

Rhoddodd y Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad, P. Owen, grynodeb manwl i Aelodau'r Fforwm o'r adroddiad cynnal a chadw Hawliau Tramwy'r Cyhoedd, am y cyfnod o ganol Gorffennaf 2006 tan ddiwedd Tachwedd 2006.

Esboniodd fod y Tîm Hawliau Tramwy wedi derbyn 27 cŵyn yn ymwneud â 47 Hawliau Tramwy'r Cyhoedd â chymunedau fel Llangollen, Llanrhaeadr a Llandegla'n profi i fod yn ardaloedd arbennig o ran problemau llwybrau. Hysbyswyd Aelodau bod yr holl gwynion yn cael sylw ar hyn o bryd a chynhwyswyd manylion am natur a nifer y cwynion yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad arbennig at amrywiol lwybrau a oedd ar hyd yr adeg wedi'u gwahardd i'r cyhoedd: esboniodd fod y llwybrau hyn wedi'u hagor yn ddiweddar ar gyfer defnydd y cyhoedd ac roedd manylion y gwaith a wnaed wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad am yr adroddiad.

Penderfynwyd - derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa.

7. CYNRYCHIOLI BUDDIANNAU POBL AG ANABLEDD AR FFORYMAU MYNEDIAD LLEOL YNG NGHYMRU

Roedd copi o adroddiad Swyddog Polisi Mynediad, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, am Gynrychiolaeth Buddiannau Pobl ag Anabledd ar Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru, wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Fforwm at ganlyniadau arolwg gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru o Gynrychiolaeth Buddiannau Pobl ag Anabledd ar Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru a'r angen am fynd i'r afael, fel mater o frys, â thestun penodi Aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol i gynrychioli buddiannau pobl anabl ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Ddinbych

Penderfynwyd – bod Ysgrifennydd y Fforwm i symud ymlaen â'r mater o benodi Aelod i Fforwm Mynediad Lleol Sir Ddinbych i gynrychioli buddiannau pobl anabl ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Ddinbych.

8. UNRHYW FUSNES ARALL

Mewn ymateb i gais gan Mr D. Berry, cytunodd Ysgrifennydd y Fforwm i gysylltu ag Aelodau'r Fforwm a chytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd y dyfodol o'r Fforwm Mynediad lleol ar gyfer y

flwyddyn 2007.

Penderfynwyd – bod Ysgrifennydd y Fforwm i gysylltu ag Aelodau'r Fforwm a chytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd y dyfodol o'r Fforwm Mynediad lleol ar gyfer y flwyddyn 2007.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.20 p.m.